Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai
# Adolygiad Dilynol

## Ymddiriedolaeth GIG Felindre

**Blwyddyn archwilio:** 2015

**Cyhoeddwyd:** Medi 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 469A2015

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol.

Pe derbynnid cais am wybodaeth sy'n berthnasol i'r ddogfen hon, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn gosod yr ymarfer ar gyfer ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir oddi wrth awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Y sawl a gyflawnodd y gwaith oedd Sara Utley.

# Cynnwys

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran rhoi sylw i argymhellion ar gyfer gwella gwasanaethau arlwyo a maeth. Mae angen gwneud mwy o waith i atgyfnerthu rhai agweddau ar sgrinio maethol a pharhau i ostwng y lefel o gymhorthdal ar gyfer y gwasanaeth arlwyo i unigolion nad ydynt yn gleifion.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cefndir | 4 |
| Ein canfyddiadau | 5 |
| Argymhellion | 6 |
| Adroddiad manwl | |
| Mae'r trefniadau ar gyfer bodloni anghenion dietegol a maethol y cleifion yn dda yn gyffredinol ond mae lle i atgyfnerthu rhai agweddau ar y sgrinio maethol | 8 |
| Mae'r cleifion yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch profiadau amser bwyd, a glynir wrth yr egwyddorion amserau prydau bwyd yn gyffredinol | 13 |
| Mae costau'r gwasanaethau arlwyo i gleifion a'r lefelau o wastraff bwyd yn cymharu'n ffafriol ag ysbytai eraill, ac mae lefel y cymhorthdal ar gyfer y gwasanaeth arlwyo i unigolion nad ydynt yn gleifion yn parhau i ostwng | 16 |
| Sefydlwyd trefniadau ar gyfer cynllunio, monitro ac adrodd am y gwasanaethau arlwyo a maeth mewn ysbytai ond gallent fod yn fwy amlwg | 23 |
| Atodiadau | |
| Dull yr archwiliad | 26 |
| Argymhellion cenedlaethol a lleol | 28 |

# Adroddiad cryno

## Cefndir

**1.** Mae gwasanaeth arlwyo ysbytai yn rhan hanfodol o ofal cleifion, o ystyried bod prydau bwyd maethlon o ansawdd da yn chwarae rhan hanfodol yn adsefydliad a gwellhad cleifion. Mae gwasanaeth arlwyo effeithiol yn dibynnu ar gynllunio a chydgysylltu amrywiaeth o brosesau sy'n ymwneud â chynllunio bwydlenni, caffael, cynhyrchu bwyd a dosbarthu prydau bwyd i wardiau a chleifion. Mae hefyd angen cyfathrebu da ar draws yr ystod o grwpiau staff dan sylw, gan gynnwys rheolwyr, staff arlwyo, dietegwyr, nyrsys, staff cymorth a phorthorion.

**2.** Mae angen asesu a monitro anghenion statws maethlon y cleifion yn briodol, a gwneud trefniadau i gynorthwyo'r cleifion i fwynhau eu prydau bwyd mewn amgylchedd sy'n ffafriol i fwyta. Dylai'r canlyniad a ddymunir fod yn wasanaeth arlwyo hyblyg, cost-effeithiol sy'n darparu dewis da o brydau bwyd maethlon a all foddhau gofynion dietegol cleifion.

**3.** Yn 2010, cynhaliwyd archwiliadau arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai lleol ar draws Cymru, er mwyn parhau â'r gwaith a wnaed yn flaenorol gan y Comisiwn Archwilio yn 2002[1]. Ym mis Mawrth 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad[2] a oedd yn crynhoi'r canlyniadau o'r gwaith hwnnw. Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod y trefniadau arlwyo a'r gofal maethol a ddarperid i'r cleifion wedi gwella'n gyffredinol, a bod boddhad yn parhau i fod yn uchel ymysg y cleifion. Fodd bynnag, roedd angen gwneud mwy i sicrhau bod arferion da cydnabyddedig yn cael eu gweithredu'n ehangach, yn enwedig o ran sgrinio maethol a chynllunio gofal, a sicrhau bod gwastraff bwyd yn cael ei leihau.

**4.** Yn ystod tymor yr hydref 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan ar gyfer Bwyd a Diod i Gleifion Preswyl mewn Ysbytai. Mae'r safonau hyn yn disodli fframwaith maeth ac arlwyo 2002 ac yn darparu arweiniad technegol i'r staff sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion maeth cleifion[3]. Mae'r safonau hefyd yn nodi'r cynnwys maethol sydd ei angen i ddarparu ar gyfer anghenion amrywiol y boblogaeth ysbyty. Roedd gofyn i gyrff y GIG hefyd gydymffurfio'n llawn â'r safonau erbyn mis Ebrill 2013.

**5.** Er mwyn hwyluso gweithrediad y safonau, gweithiodd arlwywyr a dietegwyr gyda'i gilydd ar draws Cymru i gynhyrchu Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan a lansiwyd ddiwedd mis Ionawr 2013. Mae'r Fframwaith yn cynnwys cronfa ddata o gyfres o eitemau bwydlenni y cytunwyd arni, cyfres safonedig o ryseitiau a dulliau coginio, dadansoddiad maeth o bob eitem ar fwydlenni ac amrywiaeth o fyrbrydau sy'n cydymffurfio â'r safon, a gafaelir trwy gytundebau Cymru gyfan.

[1] Comisiwn Archwilio Cymru, **Portffolio Ysbytai Acíwt – Adolygiad o ganfyddiadau cenedlaethol ar arlwyo**, Mawrth 2002

[2] http://www.wao.gov.uk/publication/hospital-catering-and-patient-nutrition

[3] Nod y safonau maeth ac arlwyo yw diwallu anghenion maeth cleifion sy'n gallu bwyta ac yfed. Nid yw cleifion sy'n derbyn maeth parenterol neu enterig, hynny yw, maetholion a roddir trwy wythïen neu'n uniongyrchol i mewn i'r system llwybr traul, yn cael eu cynnwys dan y safonau hyn.

6. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi parhau i fod â diddordeb brwd yn y materion a amlygwyd gan waith yr Archwilydd Cyffredinol, gan gymryd tystiolaeth oddi wrth dystion a chyhoeddi ei adroddiad ei hun ym mis Chwefror 2012[4]. Yn 2014, rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol ymrwymiad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y byddai'n gwneud gwaith dilynol priodol i fonitro sut y mae cyrff y GIG wedi ymdrin â'i argymhellion cenedlaethol a lleol. Roedd yr ymrwymiad hwn yn cynnwys ystyried canlyniadau unrhyw waith dilynol a wnaed ar ôl hynny yng nghyrff y GIG er 2010.

## Ein canfyddiadau

7. Rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2015, gwnaed gwaith dilynol gennym yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre (yr Ymddiriedolaeth) er mwyn asesu i ba raddau yr oedd wedi rhoi argymhellion cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar waith[5]. Aseswyd hefyd i ba raddau yr oedd yr Ymddiriedolaeth wedi rhoi sylw i'r argymhellion a wnaed fel rhan o'r archwiliad lleol yn 2010 ac eto yn 2012.

8. Daethom i'r casgliad fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran rhoi sylw i argymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth arlwyo a maeth. Mae angen gwneud mwy o waith i atgyfnerthu rhai agweddau ar sgrinio maethol a pharhau i ostwng lefel y cymhorthdal ar gyfer y gwasanaeth arlwyo i unigolion nad ydynt yn gleifion. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:

- Mae'r trefniadau ar gyfer bodloni anghenion dietegol a maeth cleifion yn dda ar y cyfan, ond mae lle i atgyfnerthu rhai agweddau ar sgrinio maethol:
  - mae'r cleifion yn cael eu sgrinio o ran maeth ond ni chofnodir pwysau a thaldra bob amser, ac mae dryswch ynghylch meini prawf yr atgyfeiriad ar gyfer asesiad deietegol;
  - asesir cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maethol fel mater o drefn, ac adroddir amdano yn lleol ac yn gorfforaethol;
  - mae'r trefniadau presennol yn sicrhau bod bwyd a diodydd ar gael i'r cleifion bob awr o'r dydd;
  - asesir eitemau bwydlenni o ran eu maeth yn unol â fframwaith bwydlenni ysbytai Cymru gyfan, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â hwnnw; ac
  - mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael wrth ochr gwely'r claf am yr hyn y dylid ei ddisgwyl yn yr ysbyty;

[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai**, Chwefror 2012
[5] Nodwyd ein dull ni o archwilio yn Atodiad 1. Mae cwmpas y gwaith archwilio yn ymwneud yn benodol â chleifion mewnol sy'n oedolion ac sy'n gallu bwyta ac yfed yn naturiol.

- Mae'r cleifion yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch y profiadau amser bwyd, a glynir yn gyffredinol wrth yr egwyddorion amserau bwyd a ddiogelir:
  – mae'r cleifion yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch y gwasanaethau bwyd yn gyffredinol, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i sicrhau mwy o ddewis;
  – mae cymorth nyrsio ar gael yn ystod yr amserau prydau bwyd ar gyfer y cleifion hynny sydd angen cymorth; a
  – glynir yn gyffredinol wrth yr egwyddorion amserau bwyd a ddiogelir.
- Mae costau'r gwasanaethau arlwyo i gleifion a'r lefelau o wastraff bwyd yn cymharu'n ffafriol ag ysbytai eraill ac mae lefel y cymhorthdal ar gyfer gwasanaeth arlwyo i unigolion nad ydynt yn gleifion yn parhau i ostwng:
  – mae cost y gwasanaethau arlwyo i gleifion yn cymharu'n ffafrio ag ysbytai eraill;
  – mae gwastraff bwyd yn cael ei fonitro'n rheolaidd, ac mae'n is na'r targed cenedlaethol; ac
  – mae'r bwlch rhwng yr incwm a'r gost ar gyfer y gwasanaeth arlwyo i unigolion nad ydynt yn gleifion yn lleihau.
- Sefydlwyd trefniadau ar gyfer cynllunio, monitro ac adrodd ar y gwasanaethau arlwyo a maeth yn yr ysbyty ond gallent fod yn fwy amlwg:
  – mae trefniadau cadarn ar gael trwy'r Grŵp Gwella Maeth i Gleifion ar gyfer sicrhau y gweithredir polisïau a safonau cenedlaethol;
  – mae trefniadau corfforaethol ar gael ar gyfer monitro'r llwybr gofal maethol ac ansawdd bwyd, ond gellid eu hamlygu'n well; ac
  – mae dulliau effeithiol ar gael i gipio a rhoi sylw i adborth gan gleifion.

**9.** Ceir crynodeb o ganfyddiadau manwl y gwaith archwilio ym mhrif ran yr adroddiad hwn.

# Argymhellion

**10.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi llwyr gyflawni'r 27 argymhelliad a nodwyd yn flaenorol yn ein hadroddiadau cenedlaethol a lleol. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth barhau i ganolbwyntio ar weithredu'r argymhellion sy'n weddill lle yr adroddir bod cynnydd ar y trywydd iawn ond nad yw wedi ei gwblhau hyd yma, neu lle'r ydym o'r farn bod cynnydd annigonol neu ddim cynnydd wedi ei wneud. Yn ogystal â pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion hynny nad ydynt wedi cael sylw hyd yma, mae angen i'r Ymddiriedolaeth adolygu ei gytundeb ar gyfer darparu prydau bwyd, er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni anghenion yr Ymddiriedolaeth ac yn darparu gwerth am arian.

**11.** Nodir yr argymhellion hyn yn Dangosyn 1. Ceir rhestr lawn o'r argymhellion cenedlaethol a lleol, ynghyd â statws pob argymhelliad, yn Atodiad 2.

Dangosyn 1: Argymhellion cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2015 sydd eto i'w cyflawni

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| **Rheoli costau'r gwasanaeth arlwyo** | |
| R4b | Argymhellir y dylai cyrff y GIG gyflwyno systemau gwybodaeth arlwyo cyfrifiadurol a gefnogir gan ddadansoddiad eglur o gost a budd, o'u cymharu â'r systemau presennol o wybodaeth ysgrifenedig (Cenedlaethol). |
| R5b | Argymhellir y dylai cyrff y GIG adolygu eu dulliau presennol o reoli costau, er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o lwfansau dyddiol bwyd a diodydd i gleifion (Cenedlaethol). |
| R5c | Argymhellir y dylai cyrff y GIG adolygu eu dulliau presennol o reoli costau, er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o gytundebau arlwyo lleol safonedig ar gyfer yr un cynhyrchion neu gynhyrchion cyffelyb ar draws eu holl safleoedd ysbytai (Cenedlaethol). |
| R7a | Argymhellir y dylai polisïau gosod prisiau a thargedau cynhyrchu incwm sydd â'r nod o sicrhau bod y gwasanaethau arlwyo i unigolion nad ydynt yn gleifion o leiaf yn mantoli'r cyfrifon, neu, os nad ydynt, mae'n ganlyniad polisi cymhorthdal bwriadol sydd wedi ei seilio ar ddadansoddiad manwl o gostau (Cenedlaethol). |
| **Cynllunio a monitro gwasanaeth yn effeithiol** | |
| R10b | Argymhellir y dylai cyrff y GIG gasglu'r wybodaeth mewn modd systematig oddi wrth y sgrinio maethol am nifer y cleifion y nodir bod ganddynt broblemau maethol neu sydd mewn perygl o fod â phroblemau maethol, er mwyn deall graddfa'r broblem a'r effaith debygol ar y gwasanaethau arlwyo a maeth ar gyfer bodloni anghenion y cleifion hyn (Cenedlaethol). |

# Adroddiad manwl

## Mae'r trefniadau ar gyfer bodloni anghenion dietegol a maethol y cleifion yn dda yn gyffredinol ond mae lle i atgyfnerthu rhai agweddau ar y sgrinio maethol

**12.** Yn 2010, roedd nifer o ysbytai Cymru wedi gwella eu trefniadau ar gyfer sicrhau y bodlonwyd anghenion maethol y cleifion, ond roedd y wybodaeth yn fratiog ac nid oedd yn caniatáu ar gyfer trosolwg cyflym o broblemau maethol y cleifion nac ar gyfer adolygu statws maethol y cleifion yn rhwydd. Gallai diffyg dogfennaeth nyrsio safonedig ar gyfer cofnodi gwybodaeth asesu allweddol fod wedi cyfrannu at yr amrywiad yn ansawdd y cofnodion nyrsio. Nid oedd holl gyrff y GIG yn monitro cydymffurfiaeth a'r llwybr gofal maethol yn rheolaidd. Yn yr Ymddiriedolaeth, nid oedd y cleifion bob amser yn cael eu sgrinio am risg faethol ar adeg eu derbyn, ac roedd dulliau anghyson o weithredu cynlluniau gofal maethol, a rhai cleifion a oedd â risg uchel o ddiffyg maethiad ddim yn cael eu hatgyfeirio i gael asesiad deietegol. Canfu gwaith archwilio dilynol yn 2012 fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran gwella cydymffurfiaeth â'r safonau sgrinio maethol. Roedd yr holl staff nyrsio wedi cael hyfforddiant diweddaru ar yr offeryn sgrinio maethol, gan gynnwys eglurhad ar y pwyntiau trothwy lle'r oedd angen atgyfeirio'r cleifion am asesiad. Roedd yr holl gleifion yn cael eu hasesu o ran anghenion deietegol ar adeg derbyn, ac roedd cynlluniau gofal maethol unigol yn cael eu datblygu ar gyfer y cleifion a oedd wedi cael asesiad o fod mewn perygl neu rai a oedd ag anghenion dietegol ychwanegol.

**13.** Canfu adolygiad gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn 2014 hefyd fod anghenion maethol y cleifion yn cael eu hasesu'n briodol. Adroddodd AGIC am bwyslais cadarnhaol ar sicrhau bod diodydd yn cael eu cynnig yn rheolaidd, a bod y cleifion yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i fwyta eu prydau bwyd yn unol â'u hanghenion dynodedig.

## Mae’r cleifion yn cael eu sgrinio o ran maeth ond ni chofnodir pwysau a thaldra bob amser, ac mae dryswch ynghylch meini prawf yr atgyfeiriad ar gyfer asesiad deietegol

**14.** Yn rhan o’n gwaith ar gyfer 2015, adolygwyd cyfres o nodiadau achos ar un ward yr ymwelwyd â hi yn rhan o’r archwiliad, sef pum nodyn achos i gyd. Aseswyd a oedd y cleifion yn cael sgriniad maethol gan y staff nyrsio ar adeg derbyn ai peidio ac a oedd yn cael ei ailadrodd o leiaf unwaith yr wythnos, yn ogystal ag ansawdd y broses sgrinio maethol. Canfuwyd bod y staff nyrsio yn sgrinio’r cleifion fel mater o drefn ac yn eu sgrinio trwy ddefnyddio offeryn sgrinio maethol Graddfa Moreland[6]. Ond nid oedd yr holl gleifion yn cael eu pwyso o fewn 24 awr i’w hadeg derbyn, ac nid oedd taldra’r cleifion yn cael ei gofnodi bob amser. Mae Graddfa Moreland yn cynnwys chwe elfen, megis chwant bwyd, deiet a thriniaeth, a ddefnyddir gan y staff nyrsio i asesu risg maethol. Mae’r staff nyrsio yn defnyddio’r un ffurflen ar gyfer asesiadau sy’n cael eu hailadrodd, gan ei gwneud hi’n anodd gweld pa sgôr sy’n berthnasol i ba asesiad a newidiadau yn statws y risg.

**15.** Ar adeg ein harchwiliad, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud newidiadau dros dro i’r meini prawf ar gyfer atgyfeiriadau i gael asesiad deietegol. Digwyddodd hynny oherwydd prinderau staff yn yr adran ddeietegol. Roedd y meini prawf diwygiedig hynny’n cynnwys y canlynol:

- sgôr Moreland o 35 neu fwy;
- canserau gastroberfeddol uchaf neu ganserau’r pen a’r gwddf;
- cleifion yr oedd angen bwydo enterig neu barenterol arnynt; a
- chleifion a oedd wedi bod yn cael ‘dim trwy’r geg’ am fwy na phum diwrnod.

**16.** Canfu ein gwaith maes y gallai’r newidiadau dros dro i’r meini prawf atgyfeirio fod wedi eu cyfathrebu’n well, gan fod y staff nyrsio yn ansicr pam y gwnaed y newidiadau dros dro, ac nid oeddent yn sicr pa gleifion y dylid eu monitro trwy ddefnyddio siartiau bwyd Cymru gyfan. Yn y cyfamser, dywedodd y staff deietegol wrthym eu bod yn ymweld â chleifion lle’r oedd gan y staff nyrsio bryderon ar wahân i’r meini prawf atgyfeirio.

**17.** Mae Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan yn egluro bod iechyd y geg a chyfathrebu yn rhan o ofal maethol. Mae’r Ymddiriedolaeth yn defnyddio asesiad iechyd y geg Cymru gyfan, ac mae wedi addasu’r dull asesu hwn er mwyn ei ddefnyddio yn y lleoliad gofal canser. Cedwir cofnodion nyrsio yn unol â 12 thema Hanfodion Gofal. Ceir tair adran sy’n ymwneud ag arlwyo a maeth yn y 12 maen prawf hyn, sef iechyd y geg a hylendid, bwyta ac yfed, a chyfathrebu. Canfu ein hadolygiad wybodaeth am iechyd y geg wedi ei chofnodi ym mhedwar o’r pum cyfres o nodiadau achos a adolygwyd gennym, ac roedd yr holl nodiadau achos yn cynnwys cofnodion ynghylch anawsterau cyfathrebu. Gwelwyd cydymffurfiaeth dda â’r asesiad o iechyd y geg hefyd yng nghanfyddiadau archwiliad Hanfodion Gofal 2014, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2014, ond roedd perfformiad wedi gostwng ychydig, o’i gymharu ag archwiliad 2013.

[6] Mae Graddfa Moreland yn ddull asesu maeth a ddatblygwyd a’i ddilysu gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar gyfer cleifion sydd â chanser.

18. Roedd y cofnodion nyrsio ar gyfer y pum claf y cynhaliwyd adolygiad ohonynt yn cynnwys gwybodaeth ar lyncu, yn ogystal â gallu'r cleifion i'w bwydo eu hunain, a symudedd. Chwiliwyd yn y nodiadau meddygol am atgyfeiriadau ar gyfer llyncu ac asesiadau o lyncu, a daethpwyd o hyd iddynt.

19. Roedd y nodiadau achos i gyd yn cofnodi anghenion therapiwtig, ffordd o fyw neu ddiwylliannol y cleifion o ran bwyd a hylif, yn ogystal â'u cymeriant deietegol arferol, ar y pryd. Roedd y staff nyrsio yn defnyddio'r nodiadau nyrsio i gofnodi cynlluniau gofal o ran maeth, ac roedd y rhain wedi eu haddasu ar gyfer anghenion y cleifion. Roedd siartiau bwyd ar gael ac wedi eu llenwi'n dda, ac roedd maint y dogn a fwytawyd wedi ei gofnodi. Roedd siartiau hylifau hefyd ar gael ac roeddent yn cael eu defnyddio'n briodol.

## Asesir cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maethol fel mater o drefn, ac adroddir amdano yn lleol ac yn gorfforaethol

20. Yn 2010, nid oedd holl gyrff y GIG yn monitro cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maethol, er bod trefniadau wedi eu gwneud yn yr Ymddiriedolaeth ar gyfer monitro cydymffurfiaeth fel mater o drefn. Erbyn 2012, roedd yr Ymddiriedolaeth yn monitro'n rheolaidd fod sgrinio maethol yn cael ei gynnal a chynlluniau gofal yn cael eu datblygu, pan oedd hynny'n briodol.

21. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth â sgrinio maethol. Ar lefel y wardiau, mae cyfran yr asesiadau maethol a gwblheir o fewn 24 awr i'r adeg derbyn yn cael eu cipio bob mis trwy ddefnyddio system metrigau nyrsio Cymru gyfan. Adroddir y wybodaeth hon wrth Lywodraeth Cymru ac adroddir amdani hefyd trwy ddangosfwrdd nyrsio'r Ymddiriedolaeth.

22. Ychwanegir at y data hwn wrth i'r staff deietegol gynnal archwiliad chwarterol, gan asesu cydymffurfiaeth â sgrinio maethol, yn ogystal ag edrych i weld a yw'r cleifion y nodir eu bod mewn perygl yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer asesiad deietegol. Mae'r asesiad yn asesu'r canlynol:

- a gynhelir sgrinio maethol o fewn 24 awr i'r adeg derbyn;
- a atgyfeirir y cleifion i'r deietegydd yn briodol;
- a gofnodir taldra a phwysau'r cleifion; ac
- a yw'r cleifion yn cael eu hail-sgrinio ar sail eu risg faethol.

23. Rhennir canfyddiadau'r archwiliad ar unwaith â'r staff wardiau, ac mae maint yr Ymddiriedolaeth yn golygu bod yr holl wardiau yn cymryd rhan yn yr archwiliad chwarterol. Trafodir canfyddiadau'r archwiliad yn y Grŵp Gwella Maeth i Gleifion.

**24.** Yn 2010, nid oedd unrhyw raglenni hyfforddiant na hyfforddiant diweddaru rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau bod y staff wardiau'n parhau i fod yn ymwybodol o ddefnyddio'r adnoddau sgrinio maethol a'r ddogfennaeth asesu. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru becyn hyfforddiant e-ddysgu ar gyfer defnyddio llwybr gofal maethol Cymru gyfan a siartiau bwyd a diod Cymru gyfan ym mis Medi 2011. Roedd yn ofynnol i'r holl staff nyrsio wardiau gwblhau'r pecyn hyfforddiant e-ddysgu o fewn 12 mis i'r dyddiad hwnnw, a dylai staff newydd ei gwblhau o fewn 12 mis i adeg eu penodi. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth lefelau da o gydymffurfiaeth, gyda mwy nag 80 y cant o'r staff yn dilyn yr hyfforddiant. Mae absenoldeb salwch tymor hir ac absenoldeb mamolaeth yn cyfrif am y ffaith nad oedd gweddill y staff wedi cydymffurfio. Nod yr Ymddiriedolaeth o hyd yw sicrhau 100 y cant o gydymffurfiaeth.

**25.** Yn yr Ymddiriedolaeth yn 2010, roedd yr holl staff arlwyo wedi cael hyfforddiant hylendid bwyd, ac roedd y staff deieteg yn gweithio'n agos gyda'r staff wardiau i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth sylfaenol o faeth a phwysigrwydd gwahanol ddeietau therapiwtig neu rai â'u hansawdd wedi ei addasu. Canfu ein harchwiliad diweddaraf fod y trefniadau hyn yn parhau i gael eu dilyn a bod y staff deieteg yn parhau i gefnogi'r staff arlwyo trwy hyfforddiant rheolaidd.

## Mae'r trefniadau presennol yn sicrhau bod bwyd a diodydd ar gael i'r cleifion bob awr o'r dydd

**26.** Yn 2010, canfuwyd bod gan y rhan fwyaf o'r ysbytai drefniadau ar gyfer darparu byrbrydau, ond nododd llawer o gleifion nad oedd byrbrydau ar gael rhwng yr amserau prydau bwyd. Roedd Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan yn nodi y dylid cynnig byrbrydau ddwywaith neu deirgwaith y dydd a chynnig byrbrydau gyda'r nos i'r holl gleifion oherwydd y bwlch hir rhwng y pryd bwyd gyda'r nos a brecwast.

**27.** Yn yr Ymddiriedolaeth, mae byrbrydau ar gael rhwng yr amserau prydau bwyd ac ar gyfer cleifion sy'n colli pryd bwyd. Cedwir amrywiaeth o fyrbrydau yng ngheginau'r wardiau, megis bisgedi, ffrwythau ffres, iogwrt, caws a chraceri a brechdanau, yn ogystal â phrif fwydydd megis bara, grawnfwyd a llaeth. Cynigir byrbrydau yn ystod rowndiau canol y bore a chanol y prynhawn, ond caiff y cleifion ofyn am fyrbrydau gan y staff nyrsio a staff arlwyo y wardiau ar unrhyw adeg o'r dydd.

**28.** Mae'r safonau ar gyfer bwyd a diod i'r cleifion yn nodi y dylai saith neu wyth o rowndiau diod gael eu gwneud bob dydd, sy'n cynnig diodydd poeth ac oer, ac y dylid newid dŵr mewn jygiau deirgwaith y dydd. Canfu archwiliad Hanfodion Gofal 2014 fod dŵr yfed bob amser ar gael a'i fod o fewn cyrraedd y cleifion. Roedd yr holl wardiau yn gwneud saith neu fwy o rowndiau diod bob dydd, a jygiau dŵr yn cael eu hail-lenwi deirgwaith y dydd. Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion (94 y cant) a ymatebodd i arolwg profiad y claf Hanfodion Gofal eu bod yn cael dŵr yfed ffres a digon o ddiodydd pan oedd eu hangen. Canfu ein hymweliad â'r wardiau fod dŵr bob amser ar gael. Cadarnhaodd y staff ward fod y jygiau dŵr yn cael eu newid o leiaf deirgwaith y dydd a bod y peiriannau iâ sydd ar gael ar bob ward o fudd i wneud y dŵr yn fwy deniadol.

## Asesir yr eitemau bwydlen o ran maeth trwy fframwaith bwydlen Cymru gyfan ac mae'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â hwnnw

**29.** Yn 2010, canfuwyd bod deietegwyr yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio'r bwydlenni yn yr holl ysbytai, ond nid oedd pob bwydlen ysbyty wedi ei hasesu o ran maeth. Ers hynny, cyhoeddwyd Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan gan Lywodraeth Cymru, sy'n nodi'r 12 maetholyn sylfaenol i'w dadansoddi. Dangosodd yr Ymddiriedolaeth ei bod yn cydymffurfio'n llawn â fframwaith bwydlen Cymru gyfan trwy ddefnyddio'r ryseitiau sydd yn y gronfa ddata i gynllunio'r bwydlenni i'r cleifion. Un o feini prawf yr Ymddiriedolaeth ar gyfer tendro am wasanaethau arlwyo yw bod angen i'r cyflenwyr ddangos bod prydau bwyd yn cael eu hasesu o ran maeth a'u bod yn cydymffurfio â fframwaith maeth ac arlwyo Cymru gyfan. Mae darparwr prydau bwyd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i ddarparu prydau bwyd sy'n cael eu hasesu o ran maeth ac yn bodloni'r safonau a nodir yn safonau maeth ac arlwyo Cymru gyfan.

**30.** Mae deietegwyr o'r Ymddiriedolaeth hefyd yn mynd i gyfarfodydd sy'n trafod Bwydlenni Cymru Gyfan. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyfrannu at y grŵp bwydlenni Cymru gyfan pan drafodir cydymffurfiaeth â'r fframwaith bwydlenni a safonau arlwyo a maeth, yn ogystal â sut y'i cynhwysir yn y dulliau adrodd presennol gyda sefydliadau'r GIG.

**31.** Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cyfrannu at grŵp cynghori ar nwyddau Cymru gyfan trwy weithio gyda'r deietegydd caffael a leolir gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i sicrhau bod y cyflenwyr bwyd yn darparu gwybodaeth am faeth ar gyfer eu cynhyrchion, er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r safonau maeth.

## Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael wrth ochr gwely'r claf am yr hyn y dylid ei ddisgwyl yn yr ysbyty

**32.** Mae safonau maeth ac arlwyo Cymru gyfan 2011 yn egluro y dylid darparu gwybodaeth i'r cleifion a'u gofalwyr am yr hyn y dylid ei ddisgwyl o ran prydau bwyd a byrbrydau tra eu bod yn yr ysbyty. Yn 2012, cyhoeddodd Prif Swyddog Meddygol a Phrif Swyddog Nyrsio Cymru lythyr ar y cyd ynghylch arlwyo a darpariaethau bwyd mewn ysbytai, gan ofyn i gyrff y GIG ddarparu'r wybodaeth a geir yn nhaflen yr Archwilydd Cyffredinol i gleifion, **Bwyta'n Iach yn yr Ysbyty - Yr hyn y dylid ei ddisgwyl**. Dywedodd y staff wardiau fod y cleifion yn cael gwybodaeth am sut y bydd eu hanghenion neu ddewisiadau maeth neu ddeietegol yn cael eu bodloni tra eu bod yn yr ysbyty. Mae ffolder wrth ochr gwely pob claf yn cynnwys bwydlen argraffedig, yn ogystal â thaflen wybodaeth Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch 'bwyta'n iach yn yr ysbyty'.

## Mae'r cleifion yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch profiadau amser bwyd, a glynir wrth yr egwyddorion amserau prydau bwyd a ddiogelir yn gyffredinol

**33.** Yn 2010, roedd y rhan fwyaf o'r ysbytai yn darparu dewis priodol o brydau bwyd, ac roedd y cleifion yn fodlon yn gyffredinol ar y bwyd yr oeddent yn ei gael. Fodd bynnag, ni chafodd yr holl gleifion y cymorth yr oedd ei angen arnynt yn ystod amserau prydau bwyd, a gellid gwneud mwy i sefydlu egwyddorion amserau prydau bwyd a ddiogelir ar rai wardiau. Yn yr Ymddiriedolaeth, roedd y cleifion yn cael eu prydau bwyd mewn cyflwr da, roeddent yn cael eu cynorthwyo i baratoi ar gyfer y prydau bwyd, ac roedd amgylchedd y ward wedi ei baratoi yn dda ar gyfer amserau prydau bwyd. Roedd gwasanaeth arlwyo yr Ymddiriedolaeth yn ddigon hyblyg i sicrhau digon o ddewis, ond roedd angen gwella'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng y staff nyrsio a'r staff arlwyo. Canfu ein gwaith archwilio dilynol yn 2012 fod cyflwyno hysbysfyrddau 'cipolwg' ar statws cleifion ar bob ward wedi bod o fudd i wella'r cyfathrebu rhwng y staff nyrsio a staff arlwyo y wardiau. Ceir crynodeb isod o ganfyddiadau ein gwaith diweddaraf.

### Mae'r cleifion yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch y gwasanaethau bwyd yn gyffredinol, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i gynyddu'r dewis

**34.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi cylch bwydlen un wythnos ar waith ar hyn o bryd, a hoffai symud at gylch bwydlen pythefnos.

**35.** Mae grŵp cynllunio bwydlenni gan yr Ymddiriedolaeth sy'n cynnwys staff nyrsio, deietegwyr, staff arlwyo a chynrychiolydd cleifion. Mae'r Grŵp yn cyfarfod pan fo angen, a'i nod yw sicrhau bod y bwydlenni'n ddeniadol, yn ogystal â'u bod yn briodol o ran maeth.

**36.** Ceisir adborth rheolaidd bod tri mis ar y gwasanaethau gweithredol, ac mae arlwyo'n rhan allweddol ohono. Mae'r canlyniadau cyffredinol yn dda, ond bu rhai sylwadau ar ddiffyg yn y dewis a oedd ar gael yn ystod yr amserau prydau bwyd. Yn y canlyniadau blynyddol ar gyfer 2014-15, roedd 92 y cant o'r cleifion yn fodlon ar y gwasanaethau arlwyo.

**37.** Mae staff hyfforddedig arolygon yn cynnal arolygon o brofiad ac adborth y claf ar sail un-i-un bob mis. Mae'r arolygon hyn yn holi'r cleifion am eu gofal, ac yn gofyn a oes ganddynt unrhyw bryderon cyffredinol. Mae'r adran arlwyo'n rhoi sylw i unrhyw wybodaeth berthnasol a ddarperir gan y cleifion. Er enghraifft, mae gwasanaeth pryd o fwyd ysgafn gwell bellach ar gael yn yr uned ddydd, gyda rowndiau amlach o ddiodydd, byrbrydau a brechdanau ar gael yn dilyn adborth gan y cleifion.

## Mae cymorth nyrsio ar gael yn ystod yr amserau prydau bwyd ar gyfer y cleifion hynny sydd angen cymorth

**38.** Mae'r staff nyrsio yn trefnu cynlluniau gwelyau sy'n amlygu anghenion deietegol y cleifion, er mwyn cynorthwyo'r staff arlwyo wrth gymryd archebion bwyd a diod y cleifion. Yn ychwanegol at hyn, mae'r staff nyrsio a'r staff arlwyo yn cyfathrebu â'i gilydd ar lafar.

**39.** Arsylwyd gwasanaeth pryd bwyd amser cinio ar un ward yn yr Ymddiriedolaeth. Canfuwyd y canlynol oddi wrth ein harsylwadau:

- Roedd ymroddiad eglur gan y staff arlwyo i annog y cleifion i fwyta ac i ddarparu prydau bwyd blasus y byddai'r cleifion yn eu mwynhau. Roedd y staff arlwyo ar y ward yn gyfarwydd ag anghenion maeth a dewisiadau deietegol y cleifion, ac roeddent yn eu helpu i dorri bwyd ac agor deunydd pacio. Roeddent hefyd yn annog y cleifion i fwyta, gan eu denu â gwahanol ddewisiadau o brydau bwyd pan oeddent yn gwrthod bwyta pryd o fwyd poeth.
- Ar adeg ein hymweliad, nid oedd angen cymorth ar unrhyw gleifion i fwyta, ac o ganlyniad, nid aeth y staff nyrsio o gwmpas gyda'r staff arlwyo ar y ward yn ystod gwasanaeth y pryd bwyd. Oherwydd bod y ward yn fach, roedd y staff nyrsio'n gallu monitro'r cleifion yn rhwyddach o bellter a sicrhau eu bod ar gael i'w cynorthwyo, pe byddai angen. Mae ein harsylwadau'n adlewyrchu canfyddiadau archwiliad Hanfodion Gofal 2014 yr Ymddiriedolaeth, a ganfu mai dim ond am hanner yr amser y gwnaeth nyrs gofrestredig gydgysylltu amserau bwyd, a'u bod i gyd yn staff nyrsio a oedd yn helpu'r cleifion yn ystod amserau bwyd.
- Roedd gwybodaeth am anghenion neu ddewisiadau maeth y cleifion ar gael yn ardal y gegin ar gyfer y staff arlwyo. Roedd yn amlwg fod y staff yn deall anghenion y cleifion, ac roedd eitemau gwahanol ar gael i gleifion ar ôl iddynt ofyn amdanynt. Fodd bynnag, dywedodd un unigolyn o'r tîm arlwyo wrthym nad oedd bob amser yn cael gwybod am newidiadau i anghenion maeth y cleifion ac nad oedd y cynlluniau gwelyau wedi eu diweddaru o bryd i'w gilydd.

**40.** Canfu archwiliad Hanfodol Gofal 2014 fod y wardiau i gyd wedi sefydlu systemau i ganiatáu i'r teulu neu ffrindiau helpu yn ystod amserau bwyd. Dywedodd y staff ward wrthym eu bod yn annog perthnasau i helpu cleifion ar amserau bwyd ond roeddent o'r farn fod angen rheoli hyn yn ofalus, fel nad effeithir ar gleifion eraill sy'n teimlo'n annifyr wrth fwyta yng ngŵydd ymwelwyr.

**41.** Mae Dangosyn 2 yn nodi ein harsylwadau ar y gwasanaeth pryd bwyd amser cinio, sydd wedi eu seilio ar y gweithgareddau yr oeddem yn disgwyl eu gweld, a pha un a oedd y gweithgareddau hyn yn berthnasol i bob un o'r cleifion, i'r rhan fwyaf ohonynt, i rai ohonynt ynteu i ddim un ohonynt.

Dangosyn 2: Y gweithgareddau allweddol a arsylwyd yn rhan o'r gwasanaeth amser cinio

| Arsylwadau'r gwasanaeth amser cinio | |
|---|---|
| Roedd y cleifion yn helpu i baratoi ar gyfer yr amserau prydau bwyd, gan gynnwys defnyddio'r tŷ bach, golchi dwylo ac eistedd i fyny yn y gwely neu ddod allan o'r gwely | Y rhan fwyaf |
| Roedd yr ardaloedd/byrddau wrth ochr y gwely yn cael eu tacluso cyn gweini'r prydau bwyd | Y rhan fwyaf |
| Roedd gwastraff clinigol yn cael ei symud i ffwrdd oddi wrth yr ardaloedd/byrddau wrth ochr y gwely | Rhai |
| Roedd y staff arlwyo ar y wardiau yn gwisgo dillad diogelwch | Y rhan fwyaf |
| Cofnodir tymheredd y prydau bwyd cyn i'r gwasanaeth ddechrau | Pob un |
| Roedd y staff nyrsio yn mynd o gwmpas gyda'r staff arlwyo ar y wardiau yn ystod y gwasanaeth | Dim un |
| Mae'n rhwydd canfod y cleifion sydd angen cymorth i fwyta | Pob un |
| Gadewir y prydau bwyd o fewn cyrraedd y cleifion | Pob un |
| Rhoddir cymorth i dorri bwyd neu dynnu deunydd pacio i ffwrdd | Pob un |
| Rhoddir cymorth prydlon i'r cleifion sydd ei angen | Pob un |

*Ffynhonnell: Arsylwadau Swyddfa Archwilio Cymru ar wasanaethau amser cinio*

## Glynir yn gyffredinol wrth yr egwyddorion amserau bwyd a ddiogelir

**42.** Canfu ein hadroddiad am 2010 fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar gyfer amserau bwyd a ddiogelir. Cymerwyd camau gweithredol i hybu'r polisi, ac roedd arwyddion eglur i'w gweld, a oedd yn dangos na ddylid torri ar draws yr amserau bwyd o gwbl. Er nad oes polisi penodol wedi ei sefydlu, mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro cydymffurfiaeth trwy gynnal archwiliadau rheolaidd.

**43.** Yn ystod ein hymweliad â'r wardiau, gwelsom arwydd wrth fynedfeydd y wardiau yn egluro'r amserau y gweithredid yr amserau bwyd a ddiogelir. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth arall ar yr arwydd yn nodi'r rhesymau a'r egwyddorion, nac yn annog perthnasau i gynorthwyo yn ystod amserau bwyd. Ar adeg ein hymweliad, roedd gwaith adnewyddu dros dro'n cael ei wneud ar y ward. Roedd hyn yn golygu nad oedd rhai ardaloedd yn cael eu defnyddio. Roedd un ardal ar y ward yr ymwelwyd â hi wedi ei neilltuo ar gyfer cleifion a oedd yn cael llawdriniaeth. Yn anffodus, roedd yr ardal hon ar ben draw y ward, a oedd yn golygu bod cleifion yn cael eu trosglwyddo rhwng y ward a'r theatr yn ystod yr amserau bwyd. Cydnabu'r staff nad oedd y sefyllfa hon yn un ddelfrydol ond ei bod yn gweithio er mwyn amharu llai ar gleifion eraill, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i roi trefniadau eraill ar waith.

**44.** Canfuwyd y canlynol yn ystod ein hymweliadau â'r wardiau:

- Nid oedd gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn bresennol ar y ward, heblaw am yr aelodau staff hynny a oedd yn cynorthwyo cleifion a oedd yn cael eu trosglwyddo rhwng y ward a'r theatr.
- Roedd y gweithgareddau glanhau wedi eu cyfyngu i goridorau'r wardiau yn ystod y gwasanaeth pryd bwyd, ac nid wrth ochr gwelyau'r cleifion. Nid oedd unrhyw weithgareddau glanhau yn peri rhwystr i'r troli bwyd neu'r gwasanaeth pryd bwyd.

## Mae costau'r gwasanaethau arlwyo i gleifion a'r lefelau o wastraff bwyd yn cymharu'n ffafriol ag ysbytai eraill, ac mae lefel y cymhorthdal ar gyfer y gwasanaeth arlwyo i unigolion nad ydynt yn gleifion yn parhau i ostwng

**45.** Yn 2010, canfuwyd bod y wybodaeth ariannol am y gwasanaethau arlwyo yn nodweddiadol wael, a phan oedd yn bodoli, roedd yn dangos amrywiaethau sylweddol mewn costau y tu mewn i sefydliadau'r GIG a rhyngddynt. Prin oedd yr ysbytai a oedd yn cynhyrchu digon o incwm ar gyfer adennill yr holl gostau o ddarparu gwasanaethau arlwyo i unigolion nad oeddent yn gleifion, a phrin oedd cyrff y GIG a oedd â pholisi cytunedig ar gymhorthdal. Argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylid datblygu model eglur ar gyfer costio'r gwasanaethau arlwyo i gleifion ac i unigolion nad ydynt yn gleifion. Cytunodd cyrff y GIG yng Nghymru ar y cyd yn 2012 i weithredu model newydd wedi ei gostio ar gyfer y gwasanaethau arlwyo, yn rhan o'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS), a ategir gan ddiffiniadau data diwygiedig. Prin yw'r cynnydd a wnaed i gyfrifiaduro systemau arlwyo ysbytai, ac roedd y rhan fwyaf o'r systemau rheoli gwybodaeth arlwyo yn ddibynnol ar brosesau ysgrifenedig ar bapur.

**46.** Ar yr un adeg, roedd cyrff y GIG yn mabwysiadu mesurau i reoli costau'r gwasanaethau arlwyo. Fodd bynnag, roedd lle i wneud mwy o ddefnydd o ryseitiau safonol wedi eu costio, cytuno ar gymorthdaliadau bwyd a diodydd ar gyfer cleifion, safoni cytundebau arlwyo lleol, a gostwng lefelau gwastraff bwyd, a oedd yn annerbyniol o uchel. Argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai sefydliadau'r GIG fod â'r nod o sicrhau nad oedd gwastraff yn mynd yn uwch na 10 y cant ar gyfer prydau bwyd nas gweinid, i gael ei gyflawni erbyn diwedd 2012-13.

**47.** Yn 2010, adroddwyd gennym fod yr Ymddiriedolaeth yn cymryd camau gweithredol i reoli costau, ond roedd angen gwneud mwy i reoli'r costau hyn, yn benodol, gostwng y lefel o gymhorthdal a'r gwastraff a oedd yn deillio o brydau bwyd nas gweinid. Yn ogystal â hyn, roedd angen gwella'r trefniadau ar gyfer monitro gwastraff. Ar adeg ein gwaith dilynol yn 2012, roedd lefel y cymhorthdal yn gostwng, ac roedd newidiadau wedi eu gwneud i'r trefniadau ar gyfer archebu prydau bwyd i gleifion a monitro gwastraff nas gweinid.

## Mae cost y gwasanaethau arlwyo i gleifion yn cymharu'n ffafriol ag ysbytai eraill

**48.** Mae cyflwyniadau data EFPMS yr Ymddiriedolaeth yn dangos amrywiaethau rhwng 2011-12 a 2014-15 o ran cost y gwasanaethau arlwyo i gleifion (Dangosyn 3). Cafwyd pump y cant o ostyngiad yng nghost y gwasanaethau arlwyo i gleifion ar draws holl gyrff y GIG. Sefydlwyd cytundeb pedair blynedd â'r darparwr ar gyfer y ddarpariaeth o brydau bwyd yn 2008, ond nid yw wedi ei ail-negodi'n ffurfiol gan yr Ymddiriedolaeth: efallai fod cyfleoedd ar gael i'r Ymddiriedolaeth ail-negodi ei chytundeb presennol.

**49.** Dengys ein dadansoddiad o ddata EFPMS ar gyfer gwasanaethau arlwyo i gleifion fod costau'r ddarpariaeth wedi gostwng, ynghyd â chostau anrheuliadwy eraill, tra'r oedd nifer y prydau bwyd i gleifion y gofynnwyd amdanynt hefyd yn gostwng ar yr un pryd. Cafwyd gostyngiad o 14 y cant yn nifer y prydau bwyd i gleifion y gofynnwyd amdanynt - o 44,165 o brydau bwyd yn 2011-12 i 37,890 o brydau bwyd yn 2013-14, o'i gymharu â phedwar y cant o ostyngiad ar draws Cymru.


Dangosyn 3: Mae costau gwasanaethau arlwyo i gleifion wedi amrywio yn ystod y tair blynedd diwethaf

| Blwyddyn | Cost y gwasanaethau arlwyo | |
|---|---|---|
| | **Felindre** | **Cymru** |
| 2011-12 | £96,492 | £38,950,000 |
| 2012-13 | £101,248 | £37,260,000 |
| 2013-14 | £88,022 | £36,970,000 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Adroddiad Perfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru 2013-14 a data atodol 2013-14

**50.** Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi gosod cost ddyddiol sefydlog ar gyfer pryd bwyd claf. Mae data'r EFPMS ar gyfer 2013-14 yn dangos mai £2.56 oedd y gost fesul pryd bwyd claf, gydag ychydig o godiad o £2.35 yn 2012-13. Mae'r gost fesul pryd bwyd claf yn is na'r gost gyfartalog ar gyfer ysbytai (Dangosyn 4).

Dangosyn 4: Mae costau'r Ymddiriedolaeth fesul pryd bwyd claf yn is na'r gost gyfartalog ar gyfer ysbytai acíwt




Ffynhonnell: dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata atodol Perfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru 2013-14

**51.** Yn 2010, roedd trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cynhyrchu bwyd yn dibynnu'n gryf ar systemau papur ysgrifenedig yn hytrach nag ar ddatrysiad TG. Yn ei adroddiad cenedlaethol, argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai cyrff y GIG gyflwyno systemau gwybodaeth arlwyo cyfrifiadurol, ac mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi datblygu achos busnes amlinellol ar gyfer caffael datrysiad arlwyo TG cenedlaethol. Canfu ein harchwiliad diweddaraf fod cyrff y GIG, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth, wedi rhoi eu sylwadau ar yr achos busnes amlinellol, a bod yr Ymddiriedolaeth yn aros am y canlyniad cyn gwneud unrhyw benderfyniadau i fuddsoddi mewn datrysiad lleol TG. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi prynu system i wella'r broses o reoli stoc, ac mae tiliau arian mannau gwerthu ar gael. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar systemau papur ysgrifenedig yn bennaf.


**52.** Er mwyn cefnogi gweithrediad safonau maeth ac arlwyo 2011, lansiwyd Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan ym mis Ionawr 2013. Pennir cost y ryseitiau sydd yn y fframwaith bwydlenni. Ariannodd yr holl Ymddiriedolaethau ar y cyd benodiad deietegydd caffael sy'n gweithio ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG – Gwasanaeth Caffael, er mwyn cefnogi'r datblygiad o gytundebau caffael Cymru gyfan i gael gafael ar ddarpariaethau o nwyddau ar gyfer y seigiau yn y fframwaith bwydlenni. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyfrannu at y grŵp fframwaith bwydlenni Cymru gyfan a grŵp nwyddau Cymru gyfan, er mwyn gallu symud ymlaen â materion caffael, gan gynnwys datblygu cytundebau ar gyfer cael gafael ar gynnyrch lleol gan gyflenwyr lleol.

## Mae gwastraff bwyd yn cael ei fonitro'n rheolaidd, ac mae'n is na'r targed cenedlaethol

**53.** Yn 2010, roedd lefelau'r gwastraff bwyd nas gweinid yn uchel ar rai wardiau ar draws yr Ymddiriedolaeth, ac roedd angen gwneud gwelliannau ar gyfer mesur yn gywir y gwastraff bwyd nas gweinid. Erbyn adeg ein gwaith dilynol yn 2012, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi datblygu trefniadau ar gyfer monitro gwastraff bwyd, ac roedd y gwastraff yn lleihau. Roedd gwelliannau wedi eu gwneud i'r prosesau archebu gan gleifion, ac roedd y cleifion bellach yn gofyn am eu dewis oddeutu dwy awr cyn yr amserau bwyd. Bu hynny o gymorth i atal atgynhyrchu gormod o ddognau bwyd.

**54.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth ganllawiau eglur ar beth a olyga gwastraff prydau bwyd nas gweinid. Bwyd nad yw wedi ei weini o'r troli bwyd yw gwastraff nas gweinid (a adnabyddir fel gwastraff troli), ond nid yw'r Ymddiriedolaeth yn cofnodi gwastraff ar blatiau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fonitro gwastraff bwyd sy'n deillio o brydau bwyd nas gweinid. Yn 2014-15, roedd maint y gwastraff bwyd a oedd yn deillio o brydau bwyd nas gweinid yn is nag 8.6 y cant, o'i gymharu â 38 y cant ar adeg ein harchwiliad yn 2010. Mae hyn yn is na'r targed cenedlaethol, sef 10 y cant. Mae'r dull amlddisgyblaethol o gynnal yr archwiliadau prydau bwyd hefyd yn sicrhau yr eir i'r afael â phroblemau gwastraff ar y cyd. Mae dadansoddiad o ddata 2013-14 EFPMS yn dangos mai £5,263 oedd cost y prydau bwyd nas gweinid yn yr Ymddiriedolaeth, sy'n gyfystyr ag 1.8 y cant o'i holl gostau arlwyo, sef ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysbytai (Dangosyn 5).

Dangosyn 5: Mae cost gwastraff bwyd yn yr Ymddiriedolaeth yn cyfrif am 1.8 y cant o gyfanswm y costau arlwyo




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata atodol Perfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru 2013-14

**55.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cofrestru â Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau. Rheolir y gwaith o waredu gwastraff bwyd trwy system dreulio anaerobig a osodwyd 18 mis yn ôl yng nghegin yr ysbyty. Cymerir gwastraff o'r wardiau a'i roi yn y treuliwr i gael ei dorri i lawr. Mae hyn wedi disodli malu bwyd ar y wardiau. Er bod y peiriant yn trawsffurfio gwastraff yn ddŵr llwyd ardystiedig, ni fydd hyn yn bodloni gofynion Bil yr Amgylchedd, gan na ellir trin y cynnyrch terfynol. Ychydig iawn yw cost yr offer hwn, gan mai'r Ymddiriedolaeth sy'n berchen ar y peiriant erbyn hyn. Mae trafodaethau ynghylch y peiriant yn parhau i gael eu cynnal â Llywodraeth Cymru.


## Mae'r bwlch rhwng yr incwm a'r gost ar gyfer y gwasanaeth arlwyo i unigolion nad ydynt yn gleifion yn lleihau

**56.** Yn 2010, nid oedd yr Ymddiriedolaeth wedi sefydlu polisi cymhorthdal, ond roedd yn bendant fod angen i'r gwasanaethau arlwyo ar gyfer unigolion nad oeddent yn gleifion fantoli'r cyfrifon erbyn 2012. Er bod y gwasanaeth arlwyo'n cynhyrchu swm sylweddol o incwm, nid oedd yn ddigon i adennill ond 60 y cant o'r cyfanswm, ac roedd yr Ymddiriedolaeth yn rhoi cymhorthdal prydau bwyd ar gyfer unigolion nad oeddent yn gleifion, gan dalu £106,000 yn 2008-09. Ar y pryd, argymhellwyd gennym y dylai'r Ymddiriedolaeth gyflwyno cynlluniau eglur ar gyfer gostwng lefel y cymhorthdal a ddefnyddid i gefnogi gwasanaethau arlwyo i unigolion nad oeddent yn gleifion.

**57.** Erbyn adeg ein harchwiliad dilynol yn 2012, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi lleihau 25 y cant ar y cymhorthdal ar gyfer yr unigolion nad oeddent yn gleifion i £80,000 yn 2011-12. Roedd papur wedi ei baratoi gan grŵp sefydlogrwydd ariannol yr Ymddiriedolaeth, er mwyn ystyried y dewisiadau posibl ar gyfer lleihau'r cymhorthdal ymhellach. Roedd y papur yn argymell pedwar dewis posibl, gydag ond un dewis a fyddai'n cyflawni statws niwtral o ran cost, sef cau bwyty Parkside. Penderfynwyd cadw lefel fach o gymhorthdal a dilyn arbedion effeithlonrwydd.

**58.** Ar draws Cymru, nid oedd yr incwm a gynhyrchwyd trwy'r gwasanaethau arlwyo ar gyfer unigolion nad oeddent yn gleifion yn ddigonol ar gyfer adennill costau gweithredol yn 2013-14 (Dangosyn 6). Yn Ysbyty Felindre, roedd cost y gwasanaethau arlwyo ar gyfer unigolion nad oeddent yn gleifion yn £183,150 yn 2013-14, ac roedd yr incwm a gynhyrchwyd yn ddigon i adennill 81 y cant o'r costau hynny. Mae hyn yn gyfystyr â chymhorthdal o oddeutu £34,000. Yn ystod adeg ein gwaith maes, roedd yr Ymddiriedolaeth yn casglu data 2014-15 EFPMS er mwyn ei gyflwyno i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'r data hwn yn dangos bod y lefel o gymhorthdal yn parhau i ostwng, a'i fod wedi gostwng i £22,278. Mae'r gwelliant parhaus yn awgrymu bod gwaith yr Ymddiriedolaeth i gyflawni arbedion effeithlonrwydd yn cael effaith (Dangosyn 7).

Dangosyn 6: Nid yw sefydliadau'r GIG yn cynhyrchu digon o incwm i adennill y gost o ddarparu gwasanaethau arlwyo ar gyfer unigolion nad ydynt yn gleifion; ceir 19 y cant o ddiffyg mewn incwm yn yr Ymddiriedolaeth




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata atodol Perfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru 2013-14

Dangosyn 7: Mae costau gwasanaeth arlwyo yr Ymddiriedolaeth ar gyfer unigolion nad ydynt yn gleifion yn lleihau

| **Blwyddyn** | **Felindre** | | **Cymru** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cost y gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion** | **Yr incwm a gyflawnwyd** | **Cost y gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion** | **Yr incwm a gyflawnwyd** |
| 2011-12 | £200,149 | £134,985 | £15,050,000 | £11,200,000 |
| 2012-13 | £184,903 | £148,988 | £14,500,000 | £11,530,000 |
| 2013-14 | £183,150[1] | £148,964 | £13,430,000[1] | £11,260,000 |

[1] Mae hyn yn cynnwys costau rhentu ar gyfer peiriannau gwerthu

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Adroddiad Perfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru 2012-13 a data atodol 2013-14

## Sefydlwyd trefniadau ar gyfer cynllunio, monitro ac adrodd am y gwasanaethau arlwyo a maeth yn yr ysbyty ond gallent fod yn fwy amlwg

**59.** Yn 2010, roedd bodolaeth strategaethau a chynlluniau wedi eu diweddaru ar gyfer rhoi effaith i bolisïau cenedlaethol ynghylch arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai yn fratiog, ac roedd angen cysoni trefniadau mewn sawl corff y GIG yn dilyn ad-drefnu'r GIG yn 2009. Roedd angen dull mwy cynhwysfawr a chydgysylltiol ar gyfer ceisio barn cleifion a theuluoedd i fod yn sail i gynlluniau a datblygiadau. Cyfyngedig oedd y wybodaeth yr oedd byrddau'r GIG yn ei chael am gyflenwad a pherfformiad y gwasanaethau arlwyo a phroblemau ynghylch maeth cleifion. Ni chesglid gwybodaeth o sgrinio maethol er mwyn deall graddfa'r broblem a'r effaith debygol ar wasanaethau. Yn rhai o gyrff y GIG, gallai'r cyfrifoldebau gweithredol ar gyfer arlwyo a maeth fod yn fwy eglur.

**60.** Yn yr Ymddiriedolaeth bryd hynny, roedd cyfrifoldebau gweithredol ar gyfer arlwyo a maeth wedi eu nodi'n eglur, ac roedd strategaethau a pholisïau wedi eu sefydlu a ddatblygwyd gan staff amlddisgyblaethol priodol. Roedd y Bwrdd yn cael gwybodaeth am y gwasanaethau arlwyo a maeth, ac roedd gwahanol ddulliau ar gael ar gyfer ceisio adborth gan gleifion. Fodd bynnag, argymhellwyd gennym y dylai'r Ymddiriedolaeth asesu'r trefniadau ar gyfer adolygu perfformiad a risgiau posibl i wasanaethau. Canfu ein gwaith dilynol yn 2012 fod yr Ymddiriedolaeth wedi adolygu ei threfniadau ar gyfer adrodd am berfformiad y gwasanaethau arlwyo a risgiau, a bod dangosyddion yn cael eu monitro gan grwpiau a phwyllgorau perthnasol.

### Mae trefniadau cadarn ar gael trwy'r Grŵp Gwella Maeth i Gleifion ar gyfer sicrhau y gweithredir polisïau a safonau cenedlaethol

**61.** Diffinnir cyfrifoldebau gweithredol yn eglur. Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Gwella Gwasanaethau sy'n gyfrifol ar lefel Bwrdd am arlwyo a maeth, gyda chefnogaeth gan Gyfarwyddwr Nyrsio'r Ganolfan Canser.

**62.** Sefydlodd yr Ymddiriedolaeth Grŵp Gwella Maeth Cleifion, sy'n gyfrifol am ddatblygu polisïau ar gyfer maeth ac arlwyo, yn ogystal ag adolygu tendrau ar gyfer gwasanaethau arlwyo. Mae aelodau'r Grŵp yn dod o feysydd arlwyo, nyrsio, dieteg, a'r Grŵp Cyswllt Claf a Gofalydd. Mae'r Grŵp, sy'n cyfarfod bob tri mis i drafod a datrys materion yn ymwneud ag arlwyo a maeth, yn adrodd wrth y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

**63.** Cadeirir y Grŵp Gwella Maeth i Gleifion gan y Pennaeth Cyfleusterau. Adroddir am broblemau wrth Grŵp Rheoli Heintiau Is-adran y Ganolfan Canser, y Pwyllgor Dysgu Trefnus, a Phwyllgor Ansawdd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth. Adolygir perfformiad arlwyo, o ran bodlonrwydd, gan y Fforwm Ansawdd a Diogelwch.

## Mae trefniadau corfforaethol ar gael ar gyfer monitro'r llwybr gofal maethol ac ansawdd bywyd, ond gellid eu hamlygu'n well

**64.** Mae adroddiadau'r Bwrdd ar arlwyo a maeth yn eithriad, gan fod safonau Cymru gyfan 2011 ar gyfer arlwyo a maeth a fframwaith bwydlenni Cymru gyfan bellach wedi eu hymsefydlu yn yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Bwrdd yn parhau i dderbyn yr hunanasesiad blynyddol yn unol â'r safonau ar gyfer y gwasanaethau iechyd a gofal a'r canfyddiadau o'r archwiliad Hanfodion Gofal. Mae'r elfennau hynny sy'n ymwneud â bwyta ac yfed yn dangos bod lle i wella, ac mae'r Ymddiriedolaeth ym mynd i'r afael â hynny. Mae gwelliant yn unol ag unrhyw gynlluniau gweithredu yn cael ei fonitro gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.

**65.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer adrodd. Mae gwaith ar y gweill i integreiddio'r metrigau perfformiad ar arlwyo a maeth yn yr adroddiadau bwrdd darlunio perfformiad chwarterol. Byddai hynny o gymorth i godi proffil y gwasanaethau arlwyo ymhellach.

**66.** Mae gwybodaeth am wastraff bwyd a chostau'r gwasanaethau arlwyo yn llai amlwg ar lefel gorfforaethol, ac yn hytrach, mae'n cael ei monitro a'i hadrodd ar lefel weithredol.

**67.** Nid yw'r Ymddiriedolaeth, fel yn achos cyrff eraill y GIG, wedi bod yn casglu gwybodaeth yn rheolaidd hyd yma drwy sgrinio maethol er mwyn deall nifer y cleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau maeth ar adeg eu derbyn.

**68.** Roedd y Pwyllgor Archwilio, trwy'r Grŵp Gwella Maeth i Gleifion, yn monitro cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion o'r adroddiadau lleol a chenedlaethol ar arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai. Pan sicrhawyd y Pwyllgor fod digon o gynnydd yn cael ei wneud, nid oedd angen i'r Grŵp Gwella Maeth i Gleifion ddarparu diweddariadau rheolaidd mwyach.

## Mae dulliau effeithiol ar gael i gipio a rhoi sylw i adborth gan gleifion

**69.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ddangos y pwysigrwydd y mae'n ei osod ar gael barn y cleifion. Mae ymgysylltiad y cleifion yn dda, ac mae nifer o ddulliau wedi eu sefydlu ar gyfer cipio adborth y cleifion, gan gynnwys:

- arolwg chwarterol o foddhad arlwyo, sy'n dangos lefelau uchel o foddhad cleifion;
- arolygon profiad cleifion sy'n rhan o'r archwiliad Hanfodion Gofal, gydag aelodau o'r Grŵp Cyswllt Cleifion yn cefnogi'r broses trwy ddosbarthu arolygon a chynorthwyo cleifion i lenwi ffurflen yr arolwg, pe byddai angen hynny;
- adrodd am gwynion a phryderon; ac
- y Pennaeth Cyfleusterau yn mynd i gyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Cleifion i drafod unrhyw broblemau arbennig ynghylch arlwyo.

**70.** Mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn fod rhoi cyfle i'r Grŵp Cyswllt Cleifion gasglu adborth y cleifion yn gwella'r broses, a dywedodd y Grŵp Cyswllt Cleifion fod y gwasanaethau arlwyo yn ymateb i'w sylwadau.

**71.** Yn ystod adeg ein gwaith maes, roedd grŵp fframwaith bwydlenni (ysbytai) Cymru gyfan yn cynnal arolwg holiadur o gleifion mewnol ar draws holl gyrff y GIG ynghylch dewis ac ansawdd y bwyd. Cynhwysodd yr Ymddiriedolaeth fwy o gwestiynau am ddewis bwydlen a oedd yn berthnasol i'w gwasanaethau lleol. Dosbarthodd y staff deieteg arolygon i 60 o gleifion ar draws yr ysbyty, ac roedd y gyfradd yn 43 y cant. Yn y cyfamser, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi derbyn unrhyw gwynion ffurfiol ynghylch y gwasanaethau arlwyo.

# Atodiad 1

## Dull yr archwiliad

Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn: ‘A yw’r Ymddiriedolaeth wedi llawn weithredu argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer sicrhau gwelliannau o ran bodloni anghenion maeth y cleifion a’u profiad amser bwyd, rheoli costau arlwyo a chynllunio a monitro. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau archwilio rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2015 er mwyn ateb y cwestiwn hwn. Mae manylion am y rhain wedi eu nodi isod.

### Adolygu cyfweliadau a dogfennaeth

Cynhaliwyd nifer o gyfweliadau ag unigolion allweddol yn yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys swyddogion, cynrychiolydd cleifion a rheolwyr wardiau. Adolygwyd nifer o ddogfennau gennym hefyd, gan gynnwys adroddiadau gan sefydliadau allanol perthnasol eraill ac ymateb yr Ymddiriedolaeth i’r adroddiadau hyn.

### Dadansoddi data

Dadansoddwyd data EFPMS ar gyfer 2012-13 a 2013-14, sef yr un diweddaraf. Cyflwynodd cyrff y GIG ddata 2014-15 i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Ystadau Arbenigol - ddiwedd mis Mehefin. Bydd y data hwn ar gael ddiwedd mis Tachwedd 2015.

### Arsylwadau wardiau

Cynhaliwyd arsylwadau ar y gwasanaeth bwyd amser cinio ar un ward, er mwyn asesu’r canlynol:

- a oedd y cleifion ac amgylchedd y ward yn barod ar gyfer yr amserau bwyd;
- a oedd y cleifion yn cael y pryd bwyd priodol;
- a oedd y cleifion yn cael eu helpu i fwyta os oedd angen; a
- chydymffurfiaeth ag amserau bwyd wedi eu diogelu.

Ymwelwyd â wardiau ar y llawr cyntaf.

### Adolygu nodiadau achos

Cynhaliwyd adolygiad o nodiadau achos ar bob ward, ac arsylwyd ar y gwasanaeth amser cinio er mwyn asesu’r canlynol:

- a oes sgrinio maethol yn cael ei gynnal trwy ddefnyddio offeryn sgrinio dilys wrth i’r cleifion gael eu derbyn i'r ysbyty;
- a oedd y canlynol wedi eu cofnodi: gwybodaeth am bwysau, taldra, mynegai màs y corff, colli pwysau anfwriadol yn ddiweddar, chwant bwyd ar y pryd, cymeriant deietegol ‘cyffredin’, anghenion deietegol arbennig, y gallu i fwyta yn annibynnol, anawsterau o ran bwyta neu yfed, a phroblemau ag iechyd y geg a hylendid, gan gynnwys deintiad; ac

- a oedd cynlluniau gofal wedi eu sefydlu ar gyfer y cleifion hynny y nodwyd bod ganddynt broblemau maeth neu eu bod mewn perygl o gael problemau maeth, a pha un a oedd y cleifion y nodwyd eu bod mewn perygl wedi eu hatgyfeirio i gael asesiad deietegol.

Cafodd y pum cyfres o nodiadau achos a adolygwyd ar bob ward eu dewis gan reolwyr y wardiau.

# Atodiad 2

## Argymhellion cenedlaethol a lleol

Mae Tabl 1 yn gosod y chwe argymhelliad lleol a nodwyd yn ein hadroddiad, a oedd yn crynhoi'r canfyddiadau o'n gwaith archwilio yn 2010 ar y gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai yn yr Ymddiriedolaeth. Nodir statws pob argymhelliad[7] hefyd yn Nhablau 1, 2 a 3.

Tabl 1 – argymhellion lleol 2010

| Argymhelliad | | Statws ym mis Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| **Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol** | | |
| R1 | Asesu a yw'r trefniadau presennol ar gyfer adolygu perfformiad a risgiau posibl i wasanaethau trwy Grŵp Rheoli Heintiau yr Ymddiriedolaeth a'r Grŵp Rheoli Risg Rhanbarthol yn ddigonol, ac os nad ydynt, ymestyn cwmpas yr adroddiad i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth i gynnwys dangosyddion risg a risgiau posibl i wasanaethau. | A |
| **Rheoli costau'r gwasanaeth arlwyo** | | |
| R2 | Cwblhau ei gynlluniau er mwyn gostwng lefel y cymhorthdal a ddefnyddir i gefnogi'r gwasanaethau arlwyo i unigolion nad ydynt yn gleifion. | A |
| R3 | Adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer monitro gwastraff bwyd trwy:<br>• archwilio'r rhesymau dros atgynhyrchu gormod o ddognau, os yw lefelau'r gwastraff yn uwch na'r trothwy cytunedig;<br>• cofnodi'r rhesymau dros atgynhyrchu gormod o ddognau, er mwyn chwilio am atebion i orgynhyrchu; a<br>• gwirio a yw un diwrnod bob mis a ddefnyddir i gasglu gwastraff blynyddol yn nodweddiadol ar gyfer y mis hwnnw. | A |
| **Sicrhau y bodlonir anghenion maeth cleifion** | | |
| R4 | Gwella'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu o ran anghenion deietegol cleifion trwy:<br>• ddatblygu a chytuno ar fformat ar gyfer nodi anghenion deietegol pob claf, fel y gall staff arlwyo y wardiau gymryd archebion y cleifion a pharatoi prydau bwyd mewn modd effeithlon, effeithiol a diogel. | A |

[7] Mae (A) yn dynodi bod yr argymhelliad wedi ei gyflawni, (O) yn dynodi bod yr argymhelliad ar y trywydd iawn i gael ei gyflawni ond nad yw wedi ei gwblhau hyd yma, ac mae (N) yn dynodi bod cynnydd annigonol wedi ei wneud neu ddim cynnydd o gwbl.

| Argymhelliad | | Statws ym mis Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| **Sicrhau y bodlonir anghenion maeth cleifion** | | |
| R5 | Gwella cydymffurfiaeth ar gyfer cyfathrebu o ran anghenion deietegol y cleifion trwy:<br>• archwilio'r rhesymau dros ddiffyg cydymffurfio gyda'r staff nyrsio;<br>• sicrhau y cofnodir y rhesymau dros beidio â sgrinio cleifion o ran risg maeth yn y nodiadau gofal nyrsio; a<br>• darparu canllawiau ar gyfer defnyddio offer sgrinio maeth Moreland, gan gynnwys atgyfnerthu'r trothwy lle y dylid atgyfeirio cleifion i gael asesiad deietegol. | A |
| R6 | Cytuno ar ddull o weithredu'r cynlluniau gofal maeth sy'n gosod nifer sylfaenol o weithgareddau ar gyfer y gwahanol lefelau o risg, gan ddibynnu ar sgôr risg Moreland. | A |

Mae Tabl 2 yn gosod y 26 argymhelliad cenedlaethol a nodir yn adroddiad 2011 yr Archwilydd Cyffredinol, a oedd yn berthnasol i gyrff y GIG a oedd yn darparu gwasanaethau arlwyo i gleifion.

Tabl 2 – argymhellion cenedlaethol 2011

| Argymhelliad | | Statws ym mis Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| **Sicrhau y bodlonir anghenion maeth cleifion** | | |
| R1b | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG ddefnyddio'r canlyniadau a gyflwynir yn ein hadroddiad archwilio lleol fel sail ar gyfer sicrhau eu bod yn gweithredu Llwybr Gofal Maeth Cymru Gyfan yn effeithiol ac, yn benodol, sicrhau bod sgrinio maethol yn nodi'r holl gleifion sydd â phroblemau maeth, neu sydd mewn perygl o'u datblygu, a bod cynlluniau gofal priodol yn cael eu hysgogi. | A |
| R1c | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG archwilio'r gydymffurfiaeth yn rheolaidd â phob agwedd ar y llwybr gofal maethol ar draws safleoedd eu hysbytai a rhannu canlyniadau'r ymarferion monitro hyn gyda'r holl grwpiau staff perthnasol sy'n ymwneud â'r gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion. | A |
| R1ch | Pan nodir cydymffurfiaeth wael â gofynion y llwybr gofal maethol, rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG gadarnhau'r rhesymau dros hynny, a gweithredu cynlluniau eglur i fynd i'r afael â'r broblem, a chynnwys darpariaeth o hyfforddiant angenrheidiol i'r staff. | A |

| Argymhelliad | | Statws ym mis Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| **Sicrhau y bodlonir anghenion maeth cleifion** | | |
| R1d | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG sefydlu trefniadau ar gyfer sicrhau bod bwyd ar gael i'r cleifion bod awr o'r dydd; dylai'r ddarpariaeth o fyrbrydau fod yn rhan o'r trefniadau hyn a dylid sicrhau bod y cleifion yn gwybod pa fyrbrydau sydd ar gael iddynt, a phryd. | A |
| R2a | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG gymryd camau i sicrhau bod yr holl fwydlenni a ddefnyddir ar draws yr ysbyty wedi eu hasesu o ran maeth gan ddeietegwyr. | A |
| **Gwella profiad amser bwyd y cleifion** | | |
| R3a | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG sicrhau bod eu bwydlenni'n darparu dewis priodol o fwyd a bod y trefniadau ar gyfer archebu a gweini bwyd yn cefnogi dewis digonol i'r cleifion. | A |
| R3b | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG adolygu eu harferion ar lefel y wardiau, er mwyn sicrhau y cynorthwyir y cleifion i fod yn gyfforddus yn barod ar gyfer eu prydau bwyd, a bod cyfle iddynt olchi eu dwylo cyn i'r pryd bwyd gael ei weini. | A |
| R3c | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG barhau i gyflwyno'r polisi ar gyfer prydau bwyd a ddiogelir i amrywiaeth mor eang â phosibl o wardiau, gan gyfathrebu ei bwysigrwydd i'r holl grwpiau staff perthnasol sy'n gweithio yn yr ysbyty, yn ogystal ag adolygu cydymffurfiaeth â'r polisi yn rheolaidd. | A |
| **Rheoli costau'r gwasanaeth arlwyo** | | |
| R4b | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG gyflwyno systemau gwybodaeth arlwyo cyfrifiadurol, a gefnogir gan ddadansoddiad cost a budd eglur, o'u cymharu â'r systemau gwybodaeth ysgrifenedig presennol. | N |
| R5a | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG adolygu eu dulliau costio presennol, er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o ryseitiau safonol wedi eu costio. | A |
| R5b | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG adolygu eu dulliau costio presennol, er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o'r lwfansau beunyddiol o fwyd a diod ar gyfer cleifion. | O |

| Argymhelliad | | Statws ym mis Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| R5c | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG adolygu eu dulliau costio presennol, er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o gytundebau arlwyo safonedig lleol ar gyfer yr un cynhyrchion neu rai cyffelyb ar draws eu holl safleoedd ysbyty. | O |
| **Rheoli costau'r gwasanaeth arlwyo** | | |
| R6a | Rydym yn argymell y dylid gosod targedau lleol a chenedlaethol ar gyfer gwastraff bwyd; fel arweiniad, dylai sefydliadau'r GIG fod â'r nod o sicrhau nad yw gwastraff o brydau bwyd nas gweinir yn fwy na 10 y cant. | A |
| R6b | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG fonitro gwastraff bwyd fel mater o drefn yn unol â chanllawiau eglur ar yr hyn a olyga pryd bwyd nas gweinir, ac y defnyddir y wybodaeth hon i gynhyrchu cymariaethau ystyrlon yn lleol ac yn genedlaethol. | A |
| R6c | Rydym yn argymell y dylai'r broses o fonitro gwastraff bwyd gynnwys nodi'r rhesymau dros y gwastraff a welir, a dylid defnyddio'r wybodaeth hon i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella'r systemau a'r prosesau sy'n achosi'r gwastraff. | A |
| R6ch | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG bwysleisio wrth eu staff fod rheoli gwastraff bwyd yn gyfrifoldeb ar y cyd, ac y dylai'r staff arlwyo a'r staff ward weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r broblem. | A |
| R7a | Argymhellir y dylai polisïau gosod prisiau a thargedau cynhyrchu incwm sydd â'r nod o sicrhau bod y gwasanaethau arlwyo i unigolion nad ydynt yn gleifion o leiaf yn mantoli'r cyfrifon, neu, os nad ydynt, mae'n ganlyniad polisi cymhorthdal bwriadol sydd wedi ei seilio ar ddadansoddiad manwl o gostau. | O |
| R7b | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG fonitro'n rheolaidd incwm a gwariant y gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion, er mwyn sicrhau bod perfformiad ariannol y gwasanaethau hyn fel y disgwylir iddynt fod, ac nad eir i ddyled oherwydd diffygion annerbyniol. | A |
| **Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol** | | |
| R8b | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG sicrhau bod ganddynt gynlluniau a gweithdrefnau wedi eu diweddaru sy'n nodi'r trefniadau lleol ar gyfer gweithredu gofynion polisïau cenedlaethol, a sicrhau, cyn belled â phosibl, fod y gwasanaethau arlwyo a maeth yn cael eu safoni, yn enwedig lle mae ad-drefnu'r GIG wedi dod â nifer o wahanol fodelau gwasanaeth at ei gilydd dan un sefydliad. | A |

| Argymhelliad | | Statws ym mis Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|
| R8c | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG sicrhau bod cyfrifoldebau'r cyfarwyddwr gweithredol dros arlwyo a maeth yn cael eu diffinio'n eglur, a lle mae dau neu fwy o gyfarwyddwyr gweithredol yn gysylltiedig â hyn, fod trefniadau ar gael sydd wedi eu diffinio'n dda ar gyfer cynllunio a monitro gwasanaethau mewn modd cydgysylltiol. | A |
| R9c | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o ddata'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau fel offeryn ar gyfer rheoli a monitro eu gwasanaethau arlwyo a maeth. | A |
| R10a | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG ddatblygu dull mwy cynhwysfawr o adrodd am berfformiad y gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion wrth y Bwrdd, sy'n dod â gwybodaeth at ei gilydd am weithredu'r llwybr gofal maethol, data perfformiad ar gostau'r gwasanaethau cleifion a'r rhai nad ydynt ar gyfer cleifion, gwastraff bwyd ac adborth y cleifion a'u perthnasau, ac y dylid cyflwyno'r wybodaeth hon gerbron y Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn, a gwneud defnydd priodol o ddata'r EFPNS. | A |
| R10b | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG gasglu'r wybodaeth mewn modd systematig oddi wrth y sgrinio maethol am nifer y cleifion y nodir bod ganddynt broblemau maethol neu sydd mewn perygl o fod â phroblemau maethol, er mwyn deall graddfa'r broblem a'r effaith debygol ar y gwasanaethau arlwyo a maeth ar gyfer bodloni anghenion y cleifion hyn. | N |
| R11a | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i rannu gwybodaeth am farn cleifion ar y gwasanaethau arlwyo rhwng prif nyrsys ward a'r gwasanaeth arlwyo. | A |
| R11b | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG ddangos sut y maent wedi ystyried barn y cleifion wrth ddatblygu'r gwasanaethau arlwyo a maeth. | A |
| R11c | Rydym yn argymell y dylai cyrff y GIG sefydlu dulliau i sicrhau bod y cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n asesu ansawdd y gwasanaethau arlwyo a maeth. | A |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru